Cabinet Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Cabinet

CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL: 18 CHWEFROR 2019

**Aelodau Cabinet Rhanbarthol Yn Bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Nigel Daniels, Arweinydd | - | Cyngor Blaenau Gwent |
| Michelle Morris, Rheolwr Gyfarwyddwr | - | Cyngor Blaenau Gwent |
| Y Cynghorydd Huw David, Arweinydd | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Mark Shephard, Prif Weithredwr | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cynghorydd David Poole, Arweinydd | - | Cyngor Caerffili |
| Christina Harrhy, Prif Weithredwr Dros Dro | - | Cyngor Caerffili |
| Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd | - | Cyngor Caerdydd |
| Paul Orders, Prif Weithredwr | - | Cyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd Kevin O'Neill, Arweinydd | - | Cyngor Merthyr Tudful |
| Gareth Chapman, Prif Weithredwr | - | Cyngor Merthyr Tudful |
| Y Cynghorydd Peter Fox, Arweinydd | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Paul Matthews, Prif Weithredwr | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd | - | Cyngor Casnewydd |
| Will Godfrey, Prif Weithredwr | - | Cyngor Casnewydd |
| Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd (Cadeirydd) | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Chris Bradshaw, Prif Weithredwr | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd | - | Cyngor Torfaen |
| Alison Ward, Prif Weithredwr | - | Cyngor Torfaen |
| Y Cynghorydd John Thomas, Arweinydd | - | Cyngor Bro Morgannwg |
| Rob Thomas, Prif Weithredwr | - | Cyngor Bro Morgannwg |

**Swyddogion:**

| | | |
|---|---|---|
| Christine Salter | - | Corff Atebol |
| Liz Weale | - | Corff Atebol |
| Hrjinder Singh | - | Corff Atebol |
| Gareth Gates | - | Corff Atebol |
| David Marr | - | Cyngor Caerdydd |
| Alistair Milburn | - | Cyfathrebu Effeithiol |
| Kellie Beirne | - | Swyddfa Rheoli Rhaglenni y Fargen Ddinesig |
| Nicola Somerville | - | SRhRh y Fargen Ddinesig |
| Matthew Swindell | - | SRhRh y Fargen Ddinesig |

**Wedi eu Gwahodd:**

| | | |
|---|---|---|
| Ann-Marie Harkin | - | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Alastair McQuade? | - | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Sara-Jayne Byrne | - | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Rosser | - | Llywodraeth Cymru |

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cynghorydd Morgan y rhai oedd yn bresennol; ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb i'w nodi.

Wrth gychwyn y cyfarfod ymddiheurodd y Cynghorydd Andrew Morgan fod y cyfarfod wedi dechrau ychydig yn hwyr.

## 2. Datgan Buddiannau

Gofynnodd y Cynghorydd Morgan i bob Aelod ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiannau gan y rheiny oedd yn bresennol.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Cabinet Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2018

Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2081 yn gofnod cywir.

## 4. 2018/19 Sefyllfa Monitro Mis 9 a Diweddariad ar Ddatganiad Cyfrifon.

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ynglŷn â 2018/19 Sefyllfa Monitro Mis 9 a Diweddariad ar Ddatganiad Cyfrifon i'w gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:** cytunwyd bod Cabinet Rhanbarthol:

a) Wedi nodi y gwariant ac incwm gwirioneddol a'r sefyllfa alldro blwyddyn gyfan a ragwelir fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2018 (Mis 9), yn erbyn Cyllideb Refeniw 2018/19 gymeradwy.

b) Nodwyd yr amserlen arfaethedig i greu Datganiad Cyfrifon nad yw wedi ei archwilio ac wedi ei archwilio ar gyfer 2018/19 fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn.

Gofynnodd y Cynghorydd Morgan hefyd am ddiweddariadau rheolaidd ymlaen llaw i'r Cabinet Rhanbarthol yn rhan o gyfarfodydd briffio parhaus cyn dyddiadau statudol Mehefin a Medi 2019.

## 5. Cynllun Busnes Blynyddol 2018-19 – Perfformiad Chwarter 3

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Kellie Beirne, Cyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ynglŷn â Chynllun Busnes Blynyddol 2018-19 – Perfformiad Chwarter 3 i'w gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:** cytunwyd bod Cabinet Rhanbarthol:

a) Yn nodi'r cynnydd cyffredinol yn ystod Chwarter 2 2018/19, gan gynnwys sefyllfa'r gyllideb a adroddwyd yn Atodiad 5 ac yn cymeradwyo'r hyn pan yn

berthnasol, caiff cyllidebau Cynllun Busnes Blynyddol 2019/20 eu paratoi ar sail y rhagfynegiadau a adroddwyd ar yr amser hwn.

b) Wedi ystyried a wedi penderfynu ei bod yn dderbyniol cymeradwyo adroddiad perfformio Chwarter 3; ac

c) Wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer y Fargen Ddinesig - Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflwyno'n ffurfiol adroddiad perfformiad Chwarter 3, gan gynnwys gwybodaeth wrth gefn i Lywodraeth y DU ac i Lywodraeth Cymru, ac i randdeiliaid eraill yn ôl yr angen, ar ran y Cabinet Rhanbarthol.

## 6. Cyllideb Refeniw'r Cyd-bwyllgor 2019/20

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, ynglŷn â Chyllideb Refeniw'r Cyd-bwyllgor 2019/20 i'w gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:** cytunwyd bod Cabinet Rhanbarthol yn cymeradwyo:

a) costau'r Cyd-bwyllgor a osodwyd yn Tabl 1 o'r adroddiad hwn ac sy'n gyfanswm o £1,687,182;

b) y Gyllideb Flynyddol arfaethedig ar gyfer 2019/20 gwerth £1,089,317 fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn i ddarparu am ran o gostau'r Cyd-bwyllgor ac sy'n cynrychioli cynnydd o 3.7% yn erbyn cyllideb y flwyddyn gynt; a

c) i falans (£597,865) costau'r Cyd-bwyllgor gael ei dalu gan Gronfa Buddsoddi Ehangach Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (sef y rhan o'r cyfraniadau Trysorlys Ei Mawrhydi y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn fel 'Haen Uchaf y GBE).

## 7. Cynllun Buddsoddi Blynyddol Cronfa Buddsoddi Ehangach 2019/20

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Kellie Beirne, Cyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ynglŷn â Chynllun Busnes Blynyddol Cronfa Buddsoddi Ehangach 2019/20 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:** bod Cabinet Rhanbarthol yn cymeradwyo Cynllun Busnes Blynyddol 2019/20.

## 8. Cynllun Ailstrwythuro ac Adnoddau Sefydliad Swyddfa'r Fargen Ddinesig 2019/20 -2020/21

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Kellie Beirne, Cyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ynglŷn â Chynllun Ailstrwythuro ac Adnoddau Sefydliad Swyddfa'r Fargen Ddinesig 2018-19 i'w gymeradwyo.

Oherwydd natur y drafodaeth yn ymwneud â Sefydliad Swyddfa'r Fargen Ddinesig, gadawodd rhai swyddogion y cyfarfod, gan gynnwys y rheiny oedd â buddiannau personol o bosib, wrth i'r eitem hon gael ei thrafod a phenderfynu arni.

**PENDERFYNWYD:** cytunwyd bod Cabinet Rhanbarthol:

a) Yn dileu y strwythur presennol ar gyfer Swyddfa Rheoli Rhaglen y Fargen Ddinesig (Atodiad 1) ac yn cymeradwyo'r Cynllun Ailstrwythuro ac Adnoddau ar gyfer Sefydliad Swyddfa'r Fargen Ddinesig yn 2019/20-2020/21 (Atodiad 2);

b) Yn nodi'r costau ychwanegol o £0.6 miliwn sydd ynghlwm wrth hyn a chymeradwyo'r cynllun ariannu a'r gyllideb arfaethedig sy'n pennu sut y caiff y cynnydd hwn ei reoli gyda'r adnoddau presennol a'r amlen fforddiadwyedd gyfredol;

c) Nodwyd y risg ynghylch y 3% o haen uchaf y Gronfa Buddsoddi Ehangach a'i digonolrwydd wrth ddarparu am gost y gwaith cefnogi a datblygu sy'n berthnasol i gyflawniad gyflymach – nawr ac yn y dyfodol. Er mwyn cymeradwyo'r egwyddor o sefydlu roi mwy o bwyslais ar yr haen uchaf sef 3% pan ac os bydd angen yn codi – ac yn amodol ar gytundeb gan Lywodraeth y DU – yn unol ag argymhellion Cynllun Busnes Blynyddol 2019/20; a

d) Cytunwyd sefydlu Panel Penodiadau a'i gynnwys yn unol â darpariaethau'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd, er mwyn cychwyn, goruchwylio a gweithredu'r broses recriwtio a dethol ar gyfer y swydd uwch Y Prif Swyddog Gweithredu a gynigir.

## 9. Partneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol – Cynllun Twf Diwylliannol ac Economaidd Cychwynnol

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran y Cynghorydd Peter Fox a'r Cynghorydd Huw Thomas ynglŷn â'r Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol – Cynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd Cychwynnol i'w gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:** cytunwyd bod Cabinet Rhanbarthol:

i.) Yn cefnogi'r Cynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd Rhanbarthol Cychwynnol ac yn cytuno iddo gael ei gyhoeddi; a

ii.) Chytunodd i lansio'r Cynllun mewn digwyddiad Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ystod Wythnos Cymru yn Llundain ar 28 Chwefror 2019.

## 10. Rhaglen Strategol Amlinellol ar gyfer Metro a Mwy – Rhaglen Cam 1 o gynlluniau 'Symudedd yn y Dyfodol" lleol

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran y Cynghorydd Huw Davies, Cadeirydd yr Awdurdod Trafnidiaeth Lleol ynglŷn â Rhaglen Strategol Amlinellol ar gyfer Cam 1 Metro a Mwy i'w gymeradwyo.

Nododd cydweithwyr y byddai diweddariad ychwanegol yn ymwneud â'r cynnig Metro Canolog mewn egwyddor yn cael ei roi mewn Briffiad i'r Cabinet Rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD:** cytunwyd bod Cabinet Rhanbarthol:

a. Yn cytuno mewn egwyddor i Metro a Mwy, rhaglen weithgarwch fel y'i nodir yn yr adroddiad hwn, sydd wedi ei dylunio i ategu a gwella'r cynlluniau Metro a Metro Canolog, i'w datblygu ymhellach a'u cefnogi gan yr Awdurdod Trafnidiaeth Ranbarthol.

b. Cytunwyd hefyd i ddatblygu ymhellach y cynigion ar gyfer y deg cynllun sy'n cwblhau Cam 1 o'r Rhaglen Metro a Mwy (Rhaglen o Gynlluniau Symudedd Lleol ar gyfer y Dyfodol, wedi eu nodi yn Atodiad 3) (gan gynnwys cynllun addas ar gyfer y dyfodol er mwyn sefydlu seilwaith Cerbydau Trydanol cynhwysfawr) drwy ddatblygu a rhoi Fframwaith Asesu Cyffredin ar waith;

c. Cymeradwywyd £75,000 o'r Gronfa Buddsoddi Ehangach (Cyllideb Cefnogi Projectau) i ddatblygu yr achos busnes a'r gwaith ar y Strategaeth Cerbydau ag Allyriadau Isel; Modeli Incwm Seilwaith a seilwaith gwefrio ar gyfer tacsis;

d. Cymeradwywyd y camau a gymerwyd wrth gyflwyno'r Cais ar gyfer y Gronfa Drafnidiaeth Leol ar 18 Ionawr (Atodiad 6); a

e. Nodwyd hefyd os na fydd yn bosib cael gafael ar y cyd-fuddsoddiad llawn sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru, sef £15 miliwn - caiff adroddiad ychwanegol ei gyflwyno i'r Cabinet Rhanbarthol er mwyn nodi'r dewisiadau ar gyfer cynnydd y cynllun.

## 11. Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau a Gefnogodd Buddsoddiad Cyntaf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Kellie Beirne, Cyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ynglŷn ag Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau a Gefnogodd Buddsoddiad Cyntaf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'w gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD**: cytunwyd bod Cabinet Rhanbarthol:

a) Yn nodi'r adroddiad a'i gynnwys;
b) Yn nodi'r 'gwersi' a bennwyd yn adroddiad SAC gan gynnwys unrhyw gamau yr ystyrir nad ydynt wedi eu gweithredu eto yng Nghynllun Busnes Blynyddol 2019/20; a
c) Nodwyd y bydd adroddiad SAC ar gael ar wahân ar wefan CPRC gan sicrhau yn y modd hwn ei fod ar gael i'r cyhoedd yn agored ac yn hygyrch.

Diolchodd y Cynghorydd Morgan i'r cydweithwyr oedd wedi mynychu a daeth y cyfarfod i ben.